

Archwilio Pam

Menora



Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon

Archwilio Pam

Menora

**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Tania ap Siôn, Leslie J Francis a Libby Jones

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd 2016 gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan
Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y
Gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei
atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn
unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig,
mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands
Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

YNGHYLCH Y GYFRES ARCHWILIO PAM

Am beth mae'r gyfres?

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwmpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd. Gyda'i gilydd maen nhw'n archwilio bara, goleuni, fêl, croes, menora a dŵr, ac yna maen nhw'n cymryd rhan mewn Gŵyl Ffydd lle maen nhw'n cofio am bob un o'r symbolau ffydd hyn ac yn eu dathlu.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, a'r lle gaiff ei ddarparu mewn addysg i holi, i archwilio ac i lunio dealltwriaeth gynyddol pobl ifanc o'u perthynas â hwy eu hunain, gydag eraill, ac â byd natur. Mae'r gyfres wedi cael ei llunio ar ymchwil helaeth y maes crefyddau, pobl ifanc ac addysg, yn ogystal ag ar ymwneud ag arfer addysgol ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r sylfeini hyn yn gosod y gyfres mewn sefyllfa unigryw ymhlith y nifer fawr o adnoddau addysgol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r adnoddau yn y gyfres yn fwriadol yn hyblyg a heb fod yn rhagnodol. Mae hyn yn cydnabod natur y dysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth heddiw ar gyfer plant dan 7 oed, a hefyd bwysigrwydd ysgogi a chefnogi creadigrwydd ac unigolrwydd athrawon wrth iddyn nhw lunio eu mannau dysgu.

Mae'r gyfres wedi cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi ei dyfeisio i gefnogi addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen gyda golwg ar ddysgu gweithredol trwy ddull chwarae. Mae'n tynnu'n benodol ar *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, y *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru*, ac mae'n ymwneud â'r rhain. Er bod yr adnoddau gweithgaredd wedi eu lleoli yn y cyd-destun penodol hwn, mae'n hawdd perthnasu'r gwaith ymchwil, a'r dulliau pedagogaidd sy'n sail iddyn nhw, i gyd-destunau eraill ac i'r cwricwla ysgol sy'n newid.

Ar gyfer pwy mae'r gyfres?

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau yn y gyfres wedi'u hanelu at blant 5 - 7 oed, ond mae'r amrywiaeth o fformatau llyfr stori a'r gweithgareddau'n gwneud y gyfres yn berthnasol ar gyfer dysgwyr iau a hŷn yn ogystal.

Mae'r gyfres wedi ei chynllunio yn bennaf ar gyfer athrawon a dysgwyr mewn ysgolion; fodd bynnag, gall rhai o fewn cyd-destunau dysgu ffurfiol ac anffurfiol eraill, gan gynnwys y cartref, hefyd ganfod y gyfres yn ddiddorol ac yn berthnasol.

Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae saith o lyfrau stori yn y gyfres *Archwilio Pam*, sy'n ymchwilio i rai o'r pethau pwysig y mae Aled a Siân yn dod o hyd iddyn nhw wrth archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'r pethau pwysig hyn yn cael eu harchwilio'n gyntaf yn yr

amgylchedd seciwlar lleol cyn cael eu harchwilio drwy lygaid pobl ifanc o fewn traddodiad crefyddol penodol. Y saith llyfr stori a'r traddodiadau crefyddol yw:

- Croes (Cristnogol)
- Bara (Cristnogol)
- Fêl (Mwslimaidd)
- Dŵr (Mwslimaidd)
- Menora (Iddewig)
- Goleuni (Iddewig)
- Symbolau Ffydd (yn dod â'r tri thraddodiad crefyddol ynghyd mewn dathliad o gredoau)

Mae pob un o'r llyfrau stori i'w cael mewn pedwar fformat gwahanol, y mae'n bosib eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, yn unol â chyd-destunau unigol. Mae pedwar fformat i'r llyfrau stori:

- fersiwn testun byr (testun byr, syml gyda lluniau)
- fersiwn testun hir (testun hirach, mwy cymhleth gyda lluniau)
- fersiwn cwestiynau allweddol (cwestiynau allweddol a lluniau)
- fersiwn lluniau (lluniau'n unig heb destun)

Mae pob un o'r fformatau ar gael i'w llwytho i lawr ar ffurf .pdf, y gellir eu defnyddio ar fyrdau gwyn ac ar amrywiaeth o ddyfeisiau electronig sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn ysgolion, a chan bobl ifanc a'u teuluoedd heddiw.

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl ar gael fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer eu defnyddio yn y dosbarth.

I ategu'r llyfrau stori, mae gan bob un o'r llyfrau stori ei becyn ei hun o *Adnoddau Gweithgaredd* ar gyfer dysgwyr ac athrawon mewn fformat .pdf y gellir ei lwytho i lawr. Mae'r Adnoddau Gweithgaredd hyn yn dilyn yr un strwythur â'r llyfrau stori. Felly, ar gyfer pob tudalen ddwbl o'r llyfr stori, mae:

- tudalen o syniadau ar gyfer gweithgareddau i bob un o'r saith maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen;
- taflen neu daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr i ategu un o'r syniadau gweithgaredd hyn;
- cysylltiadau â 'mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol'.

Yn gyfan gwbl, ar gyfer pob teitl llyfr stori mae yma 140 o syniadau am weithgareddau a 10 o daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr.

Mynediad at adnoddau'r gyfres Archwilio Pam

Mae'r holl adnoddau hyn yn rhai y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl llyfr stori ar gael hefyd i'w brynu fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer ei ddefnyddio yn y dosbarth.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y storïau ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau'n greadigol yn eich cyd-destunau dysgu eich hunain.

Dr Tania ap Siôn

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Yr Athro Leslie J Francis

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Libby Jones

Canolfan San Silyn, Wrecsam

Phillip Vernon

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Gorffennaf 2016



Tudalen 4



Tudalen 5

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae'r enw Rebecca yn enw cyfarwydd yn yr ysgrifthurau Hebraeg – holwch fwy am yr enw
- Holwch ynghylch y gwahanol fathau o fetelau sy'n cael eu defnyddio i wneud menoras – meddyliwch pa un yw'r metel gorau a pham

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Adroddwch stori am ymweld â chaffi Rebecca
- Dangoswch rai o'ch hoff ffotograffau ac adroddwch eu storïau

Datblygiad iaith Gymraeg

- menora
- silff ben tân

Datblygiad corfforol

- Chwaraewch rôl gweini diodydd a bwydydd yng nghaffi Rebecca
- Meimiwch gerdded lawr y stryd gan edrych drwy ffenestri'r siopau

Datblygiad creadigol

- Gwnewch ffotograffau a chardiau ar gyfer y silff ben tân
- Gosodwch olygfa yng nghaffi Rebecca yn y dosbarth a chwaraewch yn fyrfyr ddarn o gerddoriaeth wedi ei seilio ar synau mewn caffi


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am eich enw chi ac o ble mae'n dod
- Meddyliwch pam mae pobl yn cael enwau a pham mae enwau'n bwysig

Datblygiad mathemategol

- Lluniwch fwydlen a rhestr brisiau ar gyfer caffi Rebecca (**Gweithgaredd 1**)
- Ysgrifennwch filiau ar gyfer y cwsmeriaid a rheoli'r newid

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Caffi Rebecca

Bwydlen

Diodydd

Cinio

Te pnawn





Caffi Rebecca


Bil

Rhif y bwrdd

Nifer o bobl

Bwyd a archebwyd

Cyfanswm





Tudalen 6



Tudalen 7

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch y gwahanol fathau o gadwyni gwddf ac archwiliwch beth allen nhw fod yn ei olygu i'r rhai sy'n eu gwisgo
- Dosbarthwch wahanol fathau o emwaith i gategorïau, yn cynnwys enghreifftiau o emwaith crefyddol (**Gweithgaredd 2**)

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am y pethau rydych chi'n eu gweld yn y cae chwarae
- Datblygwch sgwrs rhwng Aled a Siân a'r ddynes sydd â chadwyn am ei gwddf

Datblygiad iaith Gymraeg

- cae chwarae
- cadwyn

Datblygiad corfforol

- Chwaraewch ar siglenni, llythrennau, a fframiau dringo
- Ewch ati i ymarfer mynd â chi tegan meddal am dro

Datblygiad creadigol

- Gwnewch furlun o'r cae chwarae
- Chwiliwch am luniau o gŵn, a'u hychwanegu at y murlun

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am faterion iechyd a diogelwch yn y cae chwarae, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chŵn
- Archwiliwch pam mae pobl yn cadw cŵn ac anifeiliaid dof eraill

Datblygiad mathemategol

- Holwch ynghylch hoff weithgareddau plant y dosbarth yn y cae chwarae, gan gofnodi a chyflwyno'r wybodaeth ar ffurf hygyrch
- Holwch ynghylch pa mor aml mae aelodau'r dosbarth yn chwarae yn y parc, a chyflwynwch y wybodaeth ar ffurf hygyrch



Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol










Gêm dosbarthu


Torrwch allan y gemwaith a'u dosbarthu'n wahanol grwpiau.







Tudalen 8



Tudalen 9

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch Seren Dafydd
- Ewch i ymweld â mynwent leol a'i chymharu â'r fynwent Iddewig yn y llun

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Dysgwch rai geiriau Hebraeg, fel 'Shalom'
- Siaradwch am eich ymweliad â'r fynwent

Datblygiad iaith Gymraeg

- y fynwent dawel
- Seren Dafydd

Datblygiad corfforol

- Cerddwch o gwmpas mynwent leol mewn ffordd barchus
- Mewn grŵp, ffurfiwch siâp seren â'ch cyrff

Datblygiad creadigol

- Copïwch ddarn o sgript Hebraeg (**Gweithgaredd 3**)
- Dyluniwch gerrig beddau ar gyfer collage

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ble mae'r synagog agosaf a pham?
- Dysgwch rai enwau Iddewig ac o ble mae'r enwau'n dod

Datblygiad mathemategol

- O'r wybodaeth yn y Cyfrifiad, chwiliwch faint o Iddewon sy'n byw yng Nghymru a Lloegr
- Chwiliwch am y garreg fedd hynaf yn eich mynwent leol

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Ysgrifennwch eich enw

Ysgrifennwch eich enw gan ddefnyddio llythrennau o'r wyddor Hebraeg. Cofiwch beidio â chynnwys y llafariad - a, e, i, o, u - gan nad yw'r rhain yn cael eu dangos yn y wyddor Hebraeg.

letter	name	sound
א	Aleph	Silent
ב	Bet	B/V
ג	Gimel	G
ד	Dalet	D
ה	He	H
ו	Vav	V
ז	Zayin	Z
ח	Chet	Ch
ט	Tet	T
י	Yod	Y
כ	Kaf	K
ך	Khaf	K
ל	Lamed	L
מ	Mem	M
ם	Mem	M
נ	Nun	N
ן	Nun	N
ס	Samech	S
ע	Ayin	Silent
פ	Peh	P
ף	Feh	F
צ	Tsadeh	Ts
ץ	Tsadeh	Ts
ק	Qof	Q
ר	Resh	R
ש	Shin	Sh
ת	Tav	T

Fy enw i mewn llythrennau Hebraeg yw:



Tudalen 6



Tudalen 7

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Trafodwch wahanol ffyrdd o storio cerddoriaeth, fel CDs, recordiau, llwytho i lawr
- Arbrofwch gyda gwneud offerynnau cerdd er mwyn deall sut mae sain gerddorol yn cael ei chreu (e.e. poteli a dŵr, offerynnau taro)

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am yr offerynnau cerdd rydych chi wedi eu canu neu eu chwarae
- Ysgrifennwch gerdd yn archwilio'r delweddau sy'n cael eu symbylu gan ddarn dewisedig o gerddoriaeth gan gyfansoddwr Iddewig (e.e. Felix Mendelssohn, Gustav Mahler, Philip Glass)

Datblygiad iaith Gymraeg

- cerddoriaeth
- côr

Datblygiad corfforol

- Gwrandewch ar gerddoriaeth ar gyfer Hanukkah a datblygwch ddawns
- Meimiwch fod yn rhan o gerddorfa, neu fod yn arweinydd cerddorfa

Datblygiad creadigol

- Gwnewch offerynnau taro a'u chwarae (**Gweithgaredd 4**)
- Crëwch gollage o offerynnau cerdd, wedi eu rhannu i gynnwys gwahanol fathau (e.e. offerynnau chwyth, pres, llinynnol, allweddellau, offerynnau taro)

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Gwrandewch ar wahanol fathau o gerddoriaeth a thrafodwch pa gerddoriaeth yw'r orau ar gyfer adegau hapus, ac ar gyfer adegau trist
- Dysgwch rai caneuon ar gyfer Hanukkah

Datblygiad mathemategol

- Holwch ynghylch pa un yw hoff gân plant y dosbarth
- Amcangyfrifwch beth yw hyd darn o gerddoriaeth ac yna amserwch y darn


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Creu cerddoriaeth


Dewiswch focs cardfwrdd chaead yn cau'n dynn arno. Rhowch ddyrnaid o reis ynddo a'i addurno. Er mwyn cael sŵm gwahanol fe allech chi roi'r reis mewn tun neu gynhwysyddplastig yn lle mewn boc. I wneud caead i'w roi ar dun fe allech chi ddefnyddio dafnydd neu bapur cryf sy'n cael ei ddal yn ei â band rwber.



Defnyddiwch ddau bren mesur neu ddwy bensil i'w taro yn erbyn ei gilydd I gadw'r amser gyda'r gerddoriaeth. Neu fe allech chi gael sŵn gwahanol eto trwy daro damau hir o blastig gyda'i gilydd. Dewiswch ddau ddarn hir o Lego.




Gludwch bapur tywod bras ar ddau floc o bren. Brwsiwch y blociau pren y naill yn erbyn y llall, fel bod y darnau papur tywod yn rhwboi yn erbyn ei gilydd.





Tudalen 12



Tudalen 13

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch menoras o wahanol steiliau
- Arbrowfch beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n gorchuddio kannwyll fach gyda chynhwysydd gwyrdr (**Gweithgaredd 5**)

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ysgrifennwch gerdd am gannwyll
- Dychmygwch a disgrifiwch sut le fyddai yn y byd heb oleuadau

Datblygiad iaith Gymraeg

- kannwyll
- ffenestr

Datblygiad corfforol

- Dawnsiwch ddawns cryndod fflamau canhwylau
- Meimiwch sut byddech chi'n goleuo menora'n ofalus

Datblygiad creadigol

- Gwnewch ganhwylau
- Gwnewch fenora i'w gosod yn y ffenestr

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am beryglon tân a sut i ddefnyddio canhwylau mewn ffordd gyfrifol
- Dysgwch pa mor bwysig yw goleuni i bethau byw

Datblygiad mathemategol

- Faint o ganhwylau fydddech chi eu hangen ar gyfer 1 menora, ar gyfer 2 fenora, ar gyfer 5 menora, ac ar gyfer 10 menora?
- Amserwch a mesurwch gannwyll sy'n llosgi, a gwnewch gloc kannwyll.




Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Arbrawf

Arbrofwch gyda'r gannwyll a dau jar gwydr o wahanol faint.





Tudalen 14



Tudalen 15

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Edrychwch ar wahanol luniau o ffenestri liw ar gyfer synagogau, a'r gwahanol ffyrdd o ddangos goleuni
- Sut byddech chi'n adnabod synagog?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am eich hoff ffenestr liw
- Ysgrifennwch gerdd am eich hoff ffenestr liw

Datblygiad iaith Gymraeg

- synagog
- ffenestr liw

Datblygiad corfforol

- Meimiwch ymddwyn yn briodol wrth i Nathan a Rachel eich tywys o gwmpas eu synagog
- Ewch i ymweld â synagog

Datblygiad creadigol

- Gwnewch ffenestr liw ar gyfer Hanukkah (**Gweithgaredd 6**)
- Crëwch hysbysiad yn hysbysebu gwasanaeth Hanukkah yn y synagog

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Archwiliwch sut i wisgo'n briodol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd ac achlysuron
- Dysgwch pam mae pobl Iddewig yn cadw dydd Sadwrn fel eu diwrnod sanctaidd

Datblygiad mathemategol

- Sawl darn o wydr sydd yn y ffenestr liw?
- Pa mor bell yw'r synagog agosaf?



Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Ffenestr liw

- Tynnwch lun ar bapur gwyn a lliwiwch bob rhan yn ofalus.
- Rhwbiwch olew coginio yn ysgafn dros y llun a'i adael i sychu.
- Gosodwch y llun i fyny ar y ffenestr. Fe fydd yr olew yn gadael i'r golau ddod trwy'r lliwiau.





Tudalen 16



Tudalen 17

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch gwahanol symbolau sy'n cael eu defnyddio ar orchuddion sgroliau'r Torah (**Gweithgaredd 7**)
- Holwch ynghylch y lamp (ner tamid) sydd ynghyn o flaen Arch y Torah

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am beth mae Aled a Siân yn gallu ei weld yn y synagog
- Siaradwch am sut mae sgroliau'r Torah yn cael eu cadw'n ddiogel a pham

Datblygiad iaith Gymraeg

- sgrôl
- Gorchudd

Datblygiad corfforol

- Meimiwch rywun yn darllen y sgroliau ar y ddarllenfa
- Ewch ati i ymarfer rholio a dadrolio sgrôl ar gyfer darllen gwahanol rannau ohoni

Datblygiad creadigol

- Gwnewch sgrôl
- Gwnewch orchudd addurnedig ar gyfer y sgrôl

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch sut mae'r sgroliau'n cael eu defnyddio mewn addoliad Iddewig
- Siaradwch am drin sgroliau'r Torah mewn ffordd barchus

Datblygiad mathemategol

- Sawl llyfr sydd yn sgroliau'r Torah?
- Pa mor hir yw'r sgroliau rydych chi wedi eu gwneud?





Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Symbolau

Holwch ynghylch y gwahanol symbolau hyn sydd i'w cael ar orchuddion sgroliau'r Torah.





Tudalen 18



Tudalen 19

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Faint o enwau duwiau Groegaidd ydych chi'n gallu dod o hyd iddyn nhw?
- Dewch o hyd i Jerwsalem ar fap

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Darllenwch stori am y duw Groegaidd, Zeus
- Siaradwch ynghylch pam nad oedd pobl Iddewig eisiau addoli duwiau Groegaidd

Datblygiad iaith Gymraeg

- duwiau Groegaidd
- addoli

Datblygiad corfforol

- Martsiwch fel milwr
- Chwaraewch rôl y milwyr yn gorfodi pobl i addoli Zeus

Datblygiad creadigol

- Gwnewch gleddyf cardfwrdd i'r milwr
- Gwnewch fodel o'r Deml yn Jerwsalem

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Siaradwch am rywbeth rydych chi'n meddwl ei fod yn 'annheg' (**Gweithgaredd 8**)
- Sut ydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n meddwl bod rhywbeth yn annheg?

Datblygiad mathemategol

- Faint yn ôl roedd y Brenin Antiochus yn byw?
- Amcangyfrifwch faint o goed sydd yn y llun ar dudalen 18


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Mae'n annheg!


Dychmygwch beth mae'r bobl hyn yn ei deimlo.





Mae'n annheg!

Rydw i'n meddwl bod hyn yn annheg.



Sut rydw i'n meddwl am hyn?



Tudalen 20



Tudalen 21

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Gwnewch lamp fydd yn cael ei goleuo ag olew olewydd
- Holwch ynghylch olew olewydd

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwaraewch rôl bod yn dyst i'r gwrthryfel, a rhowch adroddiad ynghylch yr hyn y gwnaethoch chi ei weld a'i glywed
- Chwaraewch rôl bod yn dyst i'r wyrth yn y Deml a rhowch adroddiad ynghylch yr hyn y gwnaethoch chi ei weld a'i glywed

Datblygiad iaith Gymraeg

- byddin
- olew

Datblygiad corfforol

- Gan ddefnyddio'r rhif wyth, perfformiwch gyfres o symudiadau ailadroddus yn gysylltiedig â'r stori
- Datblygwch ddawns i adrodd y stori

Datblygiad creadigol

- Dewiswch rai geiriau grymus sy'n gysylltiedig â'r stori
- Gan ddefnyddio offerynnau taro (gwelwch Gweithgaredd 4) adroddwch stori'r gwrthryfel

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Trafodwch beth sy'n arwain at frwydrau yn amgylchedd yr ysgol
- Sut byddai'n bosib gwneud pethau mewn ffordd wahanol i atal brwydrau?

Datblygiad mathemategol

- Ewch ati i ymarfer dyblu wyth, haneru wyth, a chwarteru wyth gan ddefnyddio lluniau o ganhwylau (**Gweithgaredd 9**)
- Amserwch pa mor hir mae lamp, sydd ag olew olewydd yn danwydd ynddi, yn goleuo

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Cyfrif fesul 8

Torrwch allan y siapiau menora Hanukkah.

- Cyfrifwch yr 8 menora Hanukkah.
- Os ydych chi'n **dyblu** 8 menora Hanukkah, faint sydd yno?
- Beth yw **hanner** 8 menora Hanukkah?
- Beth yw **chwarter** 8 menora Hanukkah?





Tudalen 22



Tudalen 23

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Tyfych goeden olewydd yn y dosbarth a gofalwch amdani
- Archwiliwch oleuni a thywyllwch

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch ynghylch yr hyn y mae Nathan a Rachel yn cofio amdano wrth iddyn nhw oleuo'r canhwylau
- Ysgrifennwch gerdd am y wyrth yn y Deml

Datblygiad iaith Gymraeg

- gwyrth
- teml

Datblygiad corfforol

- Goleuwch yr wyth kannwyll o'r brif gannwyll, gan ofalu am iechyd a diogelwch
- Gwylwch y canhwylau'n llosgi mewn distawrwydd

Datblygiad creadigol

- Lluniwch gerdyn cyfarch ar gyfer dathliad Hanukkah
- Canwch gân Hanukkah

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Gwahoddwch rywun Iddewig i sôn am sut maen nhw'n dathlu Hanukkah
- Siarad am ddefnyddio goleuni yn eu dathliadau eu hunain

Datblygiad mathemategol

- Holwch ynghylch pa bryd mae gŵyl Hanukkah yn cael ei dathlu nesaf **(Gweithgaredd 10)**
- Cyfrifwch faint o ddyddiau sydd cyn Hanukkah **(Gweithgaredd 10)**

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Pryd mae Hanukkah?

Nodwch ar y calendr pa bryd mae gŵyl Hanukkah yn cael ei dathlu nesaf.

Cyfrifwch faint o ddyddiau sydd tan y dathliad nesaf o Hanukkah.

January

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31				

February

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29						

March

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31				

April

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30					

May

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31				

June

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30					

July

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31				

August

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31				

September

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30					

October

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31				

November

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30					

December

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18		20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31				



Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yng Nghymru

Ystod: Pobl, Credoau a Chwestiynau (5-7)

Dylai plant gael cyfleoedd (trwy storïau, gweithgareddau a phrofiadau) i:

- gael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd;
- archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu ar fywyd pobl a rhoi arweiniad** iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach;
- gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio;
- ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth;
- mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol;
- archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.



Tudalennau 4-5

Agwedd ar yr ystod	Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut mae enwau yn y Beibl wedi dylanwadu ar y dewis o enwau ar gyfer pobl a llefydd.
Maes dysgu	<i>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</i> • Meddyliwch pam mae pobl yn cael enwau a pham mae enwau'n bwysig.



Agwedd ar yr ystod	Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio pam mae pobl grefyddol yn gosod symbolau crefyddol fel y Menora i'w harddangos.
Maes dysgu	<i>Datblygiad creadigol</i> • Gwnewch ffotograffau a chardiau ar gyfer y silff ben tân.





Tudalennau 6-7

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.

Archwilio sut rydych chi'n teimlo ynghylch pobl yn gwisgo symbolau crefyddol.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Trefnwch wahanol fathau o emwaith i gategoriâu yn cynnwys enghreifftiau o emwaith crefyddol.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.

Archwilio sut a pham mae pobl yn gofalu am gŵn.


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Archwiliwch pam mae pobl yn cadw cŵn ac anifeiliaid dof eraill.





Tudalennau 8-9



Agwedd ar yr ystod

Gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.


Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio pam mae symbolau crefyddol yn cael eu gosod mewn mynwentydd.

Maes dysgu

Datblygiad mathemategol

- Chwiliwch am y garreg fedd hynaf yn eich mynwent leol.



Agwedd ar yr ystod

Cael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio syniadau crefyddol am farwolaeth.

Maes dysgu

Datblygiad corfforol

- Cerddwch o gwmpas mynwent leol mewn ffordd barchus.



Tudalennau 10-11

Agwedd ar yr ystod	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut rydych chi'n teimlo wrth wrando ar gerddoriaeth Iddewig.
Maes dysgu	Datblygiad corfforol Gwrandewch ar gerddoriaeth ar gyfer Hanukkah a datblygwch ddawns.

Agwedd ar yr ystod	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut mae gwahanol achlysuron crefyddol yn cael eu hadlewyrchu mewn gwahanol fathau o gerddoriaeth.
Maes dysgu	Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu Ysgrifennwch gerdd yn archwilio'r delweddau sy'n cael eu hysgogi gan ddarn dewisedig o gerddoriaeth gan gyfansoddwr Iddewig.



Tudalennau 12-13

Agwedd ar yr ystod	Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.	
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio pam mae goleuni'n bwysig mewn arferion crefyddol.	
Maes dysgu	<i>laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu</i> Dychmygwch a disgrifiwch sut le fyddai yn y byd heb oleuadau.	

Agwedd ar yr ystod	Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.	
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio pam mae Iddewon yn teimlo ei bod hi'n bwysig goleuo'r menora yn eu ffenestr.	
Maes dysgu	<i>Datblygiad creadigol</i> Gwnewch fenora i'w gosod yn y ffenestr.	




Tudalennau 14-15

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio sut byddech chi'n adnabod synagog. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Sut byddech chi'n adnabod synagog?
Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol. Archwilio sut mae ymddwyn yn briodol mewn synagog. Datblygiad corfforol Meimiwch ymddwyn yn briodol wrth i Nathan a Rachel fynd â chi o gwmpas eu synagog.



Tudalennau 16-17



Agwedd ar yr ystod

Gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.


Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio beth mae Iddewon yn ei gredu am y menora.

Maes dysgu

laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am beth mae Aled a Siân yn gallu ei weld yn y synagog.



Agwedd ar yr ystod

Cael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio pam mae Iddewon yn trin sgroliau'r Torah â pharch.


Maes dysgu

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Siaradwch am drin sgroliau'r Torah â pharch.



Tudalennau 18-19



Agwedd ar yr ystod

Archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio pam mae pobl grefyddol yn teimlo ei bod hi'n bwysig trin pobl yn deg.

Maes dysgu

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Siaradwch am rywbeth rydych chi'n meddwl ei fod yn 'annheg'.



Agwedd ar yr ystod

Gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio pam mae pobl grefyddol yn cael eu herlid.

Maes dysgu

Datblygiad corfforol

- Chwaraewch rôl y milwyr yn gorfodi pobl i addoli Zeus.



Tudalennau 20-21

Agwedd ar yr ystod	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut roedd yr Iddewon yn deall Duw'n cadw golau'r menora ynghyn yn y Deml.
Maes dysgu	<i>Datblygiad mathemategol</i> Amserwch pa mor hir mae lamp yn parhau'n olau gydag olew olewydd yn danwydd ynddi.

Agwedd ar yr ystod	 Archwilio ein cyfrifoldeb ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut mae pobl grefyddol yn gallu dod â heddych yn hytrach na rhyfel.
Maes dysgu	<i>Datblygiad creadigol</i> Defnyddiwch offerynnau taro i gyfleu stori'r gwrthryfel (yn arwain at heddych).



Tudalennau 22-23

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio pam mae Iddewon yn goleuo kannwyll newydd am bob un o 8 noson Hanukkah. laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu • Siaradwch ynghylch yr hyn mae Nathan a Rachel yn cofio amdano wrth iddyn nhw oleuo'r canhwyllau.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Pam mae pobl grefyddol yn ail-adrodd storïau o'r gorffennol? Datblygiad creadigol • Canwch gân Hanukkah.
---	--